

## Tasg 1

### Pa lun?

1. Darllenwch y ddeialog yma gyda phartner.

A: Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

B: Dw i'n gallu gweld merch. Mae hi'n gwisgo dillad glas a melyn.

A: Beth wyt ti'n feddwl o'r llun?

B: Dw i'n hoffi'r llun. Mae'n wych.

A: Pam?

B: Achos mae e'n lliwgar a dw i'n hoffi'r ferch. Mae hi'n ddoniol.

A: Pa liwiau sy yn y llun?

B: Glas ... a melyn ... a ... gwyn.

A: Oes afalau yn y llun?

B: Nac oes.

A: Sut wyt ti'n teimlo?

B: Dw i'n teimlo'n hapus iawn. Mae'r llun yn hapus iawn.

**Pa lun?** .....

2. Darllenwch y ddeialog yma gyda phartner.

A: Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

B: Dw i'n gallu gweld merch. Mae hi'n gwisgo dillad du.

A: Beth wyt ti'n feddwl o'r llun?

B: Dw i ddim yn hoffi'r llun.

A: Pam?

B: Achos mae e'n dywyll a dw i ddim yn hoffi'r ferch. Mae hi'n drist.

A: Pa liwiau sy yn y llun?

B: Du ... a ... gwyn.

A: Oes llun yn y llun?


B: Oes, mae llun ar y wal.


A: Sut wyt ti'n teimlo?

B: Dw i'n teimlo'n drist. Mae'r llun yn drist.

**Pa lun?** .....

3. Gwnewch ddeialog gyda'ch partner.





Help	
gallu	to be able, can
Oes ...?	Is there ...? / Are there ...?
teimlo	to feel
tywyll	dark
golau	light

Disgrifio llun	
lliwgar	colourful
tywyll	dark
hapus	happy
doniol	funny
di-liw	colourless
golau	light
trist	sad

